Trefniadau ymgynghori

Trefniadau ymgynghori

Sut all pobl ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Dymunwn sicrhau ein bod yn derbyn sylwadau gan amrediad mor eang â phosib o bobl ynghylch ein cynigion. Yn ogystal ag ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau yn y ddogfen hon, ac unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi mewn ysgrifen, byddwn yn sefydlu nifer o ddulliau eraill er mwyn bobl ddweud eu barn wrthym.

Rhoir manylion y digwyddiadau ymgynghori rydym wedi'u cynllunio a chopïau o'r dogfennau ymgynghori, yn adran ymgynghoriadau ein gwefan **http://www.dwp.gov.uk/consultations/2007/**

Gellir llwytho'r papur hwn i lawr o **www.dwp.gov.uk/welsh/welfarereform/in-work-better-off/**

Mae copïau ar gael yn ogystal mewn amrediad o fformatau, gan gynnwys hawdd i'w ddarllen, Braille a sain, naill ai o'n gwefan neu os gofynnir amdanynt o:

Enw:	Tîm Ymgynghori Papur Gwyrdd
Cyfeiriad:	Adran Gwaith a Phensiynau, Lefel 2, The Adelphi, 1–11 John Adam Street, Llundain WC2N 6HT
Ffôn:	0207 712 2551
Ffôn testun:	0207 712 2032
Ffacs:	0207 962 8380
E-bost:	welfare.reform@dwp.gsi.gov.uk

Mae Asesiad Effaith Rheoliadol ar gyfer y cynigion yn y ddogfen hon ar gael o **www.dwp.gov.uk/welsh/welfarereform/in-work-better-off/**

Mae'r cyfnod ymgynghori'n cychwyn ar 18 Gorffennaf 2007 ac yn parhau tan 31 Hydref 2007. Byddwch gystal â sicrhau fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwnnw. Anfonwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda, neu drwy anfon e-bost i **welfare.reform@dwp.gsi.gov.uk**

Pan fyddwch yn ymateb, byddwch gystal â dweud p'un ai ydych yn gwneud hyn fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran corff mwy, a fyddech gystal â sicrhau ei bod yn eglur pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a lle bo'n gymwys, sut y cydgasglwyd barnau'r aelodau. Byddwn yn cydnabod eich ymateb.

Rydym wedi anfon y ddogfen ymgynghori hon i nifer fawr o bobl a sefydliadau a fu eisoes yn gyfrannog yn y gwaith hwn neu sydd wedi datgan diddordeb ynddo. Mae pob croeso i chi rannu'r ddogfen hon â, neu roi gwybod i ni ynghylch, unrhyw un y credwch y byddant yn dymuno bod yn gyfrannog yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'n bosibl bydd angen i'r wybodaeth rydych yn ei hanfon atom gael ei throsglwyddo i gydweithwyr o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) a'i chyhoeddi mewn crynodeb o'r ymatebion a dderbynnir. Gellir cyfeirio ati yn ogystal yn yr adroddiad cyhoeddedig.

Gall yr holl wybodaeth yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gofynnir amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddiben yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus, deallir eich bod yn cytuno iddi gael ei datgelu a'i chyhoeddi. Os nad ydych, yna dylech gyfyngu ar faint o wybodaeth bersonol a ddarparir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro paham fel rhan o'ch ymateb, er na fedrwn warantu i wneud hyn. Ni fedrwn roi sicrwydd o gyfrinachedd ymatebion electronig hyd yn oed os yw eich system TG yn ei hawlio'n awtomatig.

Os dymunwch ddarganfod mwy ynghylch egwyddorion cyffredinol Rhyddid Gwybodaeth a sut caiff ei gymhwyso o fewn AGP, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Enw: Charles Cushing

Cyfeiriad: Materion Barnu a Chyfansoddiadol,
Adran Polisi Gwybodaeth,
Uned Rhyddid Gwybodaeth,
Adran Gwaith a Phensiynau,
The Adelphi, 1-11 John Adam Street,
Llundain WC2N 6HT

Ffôn: 0207 962 8581

E-bost: charles.cushing@dwp.gsi.gov.uk neu
carol.smith14@dwp.gsi.gov.uk

Gellir canfod mwy o wybodaeth ynghylch y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

Meini prawf yr ymgynghoriad

Caiff yr ymgynghoriad hwn ei gynnal yn unol â'r Côd Arfer Ymgynghori, y gellir ei gyrchu o wefan Swyddfa'r Cabinet. Rhestrir y chwe maen prawf ymgynghori isod:

- ymgynghorwch yn eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu isafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi;
- byddwch yn glir ynghylch pwy all gael ei effeithio, pa gwestiynau a ofynnir, a'r raddfa amser ar gyfer yr ymatebion;
- sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno a hawdd mynd ato ar raddfa eang;
- rhowch adborth ynghylch yr ymatebion a dderbyniwyd a sut dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi;
- monitrwch effeithiolrwydd eich adran yn y gwaith o ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio Cyd-drefnydd Ymgynghori; a
- sicrhewch fod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer da rheoleiddio gwell, gan gynnwys gwneud Asesiad Effaith Rheoliadol os y bo'n addas.

Rydym yn mawrbrisio eich adborth ynghylch llwyddiant ein dull o ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch proses yr ymgynghoriad hwn (yn hytrach na'r pynciau a godir) byddwch gystal â chysylltu â'n Cyd-drefnydd Ymgynghori:

Enw: Roger Pugh

Cyfeiriad: Adran Gwaith a Phensiynau,
Cyd-drefnydd Ymgynghori, Ystafell 2A,
Britannia House, 2 Ferensway, Hull HU2 8NF

Ffôn: 01482 609571

E-bost: roger.pugh@dwp.gsi.gov.uk

Yn arbennig, dywedwch wrthym, os gwelwch yn dda, os nad ydych yn teimlo fod yr ymgynghoriad yn bodloni'r meini prawf hyn. Mae pob croeso i chi gynnig unrhyw sylwadau hefyd ynghylch sut medrid gwella'r broses o ymgynghori ymhellach.

Os oes gennych unrhyw ofynion sydd angen i ni eu cwrdd er mwyn i chi fedru cynnig sylwadau, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Beth fyddwn ni'n ei wneud ar ôl yr ymgynghoriad?

Byddwn yn cynhyrchu adroddiad, sy'n casglu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd ac yn disgrifio'r meysydd a nodwyd fel y rhai pwysicaf. Bydd yr adroddiad hwn ar gael yn **www.dwp.gov.uk/welsh/welfarereform/in-work-better-off/** Byddwn yn gwahodd pobl a fu'n gyfrannog yn yr ymgynghoriad i gynnig sylwadau ynghylch yr adroddiad hwn pan gyhoeddir ef.

Cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn 1: Ar hyn o bryd, mae gan rieni sengl hawl i Gymhorthdal Incwm hyd nes mae eu plentyn ieuengaf yn 16. A yw hi'n iawn y dylai'r oed hwn gael ei ostwng?

Cwestiwn 2: Beth ddylai'r oed isafol fod?

Cwestiwn 3: A ddylem wneud mwy i sicrhau bod ein cefnogaeth i rieni sengl yn hygyrch ac yn ddefnyddiol i bob grŵp, yn arbennig y rhai hynny gyda phlant anabl a'r rhai hynny o rai grwpiau ac ardaloedd difreintiedig?

Cwestiwn 4: Cynigir cyfweliadau sy'n Canolbwyntio ar Waith mwy aml ar hyn o bryd i rieni sengl yn y ddwy flynedd cyn y collir eu hawl i Gymhorthdal Incwm. Wrth i oed y plentyn ieuengaf ostwng, a ddylid darparu ffurfiau eraill o gymorth, a thros ba gyfnod cyn colli'r hawl?

Cwestiwn 5: I rieni sengl sy'n symud i fod ar Lwfans Chwilio am Waith pan gollant eu hawl am Gymhorthdal Incwm, pa ffurfiau o gymorth (yn ychwanegol at y rhai a ddarperir i rai sy'n hawlio Lwfans Chwilio am Waith nad ydynt yn rhieni sengl) ddylai fod ar gael, a thros ba gyfnod o amser?

Cwestiwn 6: Gall rhai sy'n derbyn Lwfans Chwilio am Waith, mewn rhai amgylchiadau, gyfyngu eu chwiliad am waith i isafswm o 16 awr yr wythnos. A ddylai unrhyw fater arall fod yn hyblyg os gwneir y newidiadau arfaethedig?

Cwestiwn 7: Pa fath o sicrwydd y gellid ei roi i rieni sengl y byddent yn 'well eu byd mewn gwaith'?

Cwestiwn 8: A oes unrhyw ddarpariaethau arbennig yn ofynnol ar gyfer rhieni sengl sy'n symud at fudd-daliadau yn hytrach na Lwfans Chwilio am Waith (er enghraifft Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Gofalwr)?

Cwestiwn 9: Yn ychwanegol at y gwelliannau mewn darpariaeth gofal plant a'r hawl i ofyn am weithio hyblyg, a oes cefnogaeth ychwanegol y dylid ei darparu i helpu rhieni sengl i waith a'u cefnogi tra eu bod yn gweithio?

Cwestiwn 10: Beth mwy y gallwn ei wneud i helpu teuluoedd sy'n gweithio - yn arbennig y rhai hynny o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig – i wella eu henillion ac i godi eu hunain allan o dlodi?

Cwestiwn 11: Beth mwy y gellid ei wneud i helpu merched o leiafrifoedd ethnig, yn arbennig rhai sy'n tarddu o Bacistan a Bangladesh i oresgyn rhwystrau penodol y maent yn eu hwynebu?

Cwestiwn 12: Yn gyfnewid am fwy o gynhorthwy arbenigol, a yw'n deg i ni ofyn mwy gan y rheiny a fu'n ddi-waith ac yn derbyn budd-dâl am y cyfnod hwyaf?

Cwestiwn 13: A ddylai unrhyw eithriadau fodoli i'r agwedd hon o gynydd mewn amodau a chynnydd mewn cynhorthwy?

Cwestiwn 14: Ai cyfundrefn, strwythuredig, gynyddol o gynhorthwy ac amodau ar adegau sefydlog yw'r ffordd iawn o fynd ati?

Cwestiwn 15: A ddylid galluogi i neu fynnu bod rhai pobl yn ymgymryd â'r can Mynedfa yn gyflymach nag eraill, gan gymryd eu hanes cyflogaeth neu eu hanghenion i ystyriaeth? Pa grwpiau ddylid eu rhoi ar y 'trac cyflym'?

Cwestiwn 16: A ddylem fynnu bod y rheiny nad ydynt yn llwyddo i gael gwaith ar ôl manteisio ar lefel ddwysach o help gan ddarparwyr arbenigol yn ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith? Beth yw'r dull gorau i ni sicrhau fod y profiad gwaith hwn yn fuddiol?